**<u>Buddsoddi ac adfywio sy'n targedu ardaloedd penodol</u>**

Mae'r papur hwn yn crynhoi canfyddiadau gwerthusiadau o brosiectau Cronfeydd Strwythurol sydd wedi canolbwyntio'n benodol ar adfywio ardaloedd yng Nghymoedd y De. Hefyd, mae'n canolbwyntio ar astudiaethau ymchwil a gwerthuso ehangach yn ymwneud â buddsoddi ac adfywio sy'n targedu ardaloedd penodol. Mae'r crynodeb isod yn nodi'r canfyddiadau allweddol sy'n cael sylw mewn sawl astudiaeth fel arfer. Mae Atodiad A yn amlinellu'r canfyddiadau yn fanylach.

## Cynllunio a Strategaeth

Mae bodolaeth strategaeth ardal neu ranbarth fel sylfaen i unrhyw waith adfywio yn bwysig er mwyn sicrhau bod pob gweithgaredd yn ceisio cyflawni'r un amcanion. Dylai'r nodweddion gynnwys y canlynol:

- Cynnwys amrywiaeth lawn o bartneriaid lleol, gan gynnwys y sector preifat;
- Pennu blaenoriaethau ymarferol ar gyfer yr hyn y gellir ei gyflawni, sy'n golygu bod angen arweiniad clir i osgoi rhestr o ddymuniadau;
- Nodi amcanion a thargedau ymarferol a phenodol;
- Os yw'r gwaith yn seiliedig ar ardal benodol, dylid sicrhau ei fod yn adlewyrchu cysylltiadau economaidd rhwng ardaloedd ac nad yw'n rhy gyfyngedig;
- Bod yn addas iawn i'r ardal / rhanbarth perthnasol, nodi cryfderau gwirioneddol a phenodol i'w datblygu, osgoi cyffredinoli.

## Gwerthuso

Mae gwerthuso yn bwysig er mwyn canfod a yw polisi neu raglen benodol wedi llwyddo, a sut mae modd gwella polisïau a rhaglenni yn y dyfodol. Fodd bynnag, weithiau mae cynllun rhaglen yn ei gwneud yn anodd cwblhau gwerthusiad o ansawdd da. Mae'r broses o gynllunio rhaglenni i hwyluso gwerthusiadau yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu strategaeth bendant sy'n osgoi canlyniadau sy'n rhy gyffredinol neu sy'n cael eu diffinio'n wael, (e.e. "lle gwell i fyw a gweithio") ac sy'n seiliedig ar resymeg ymyrraeth drylwyr;
- Nodi nifer fach o nodau penodol iawn, sy'n gallu cael eu dylanwadu gan y rhaglen fuddsoddi;
- Cynllunio'r gwerthusiad o'r cychwyn er mwyn cadarnhau rhesymeg yr ymyrraeth ac ystyried anghenion data ac a oes modd diwygio'r broses o gyflwyno'r rhaglen er mwyn hwyluso gwerthusiad gwell (e.e. treialu rhai nodweddion mewn ardaloedd penodol o'r rhanbarth ehangach).

## Mathau o fuddsoddiad

Dylai'r math o fuddsoddiad fod yn fodd o gyflawni rhywbeth ac nid yn nod ynddo ei hun, ac mae'n dibynnu ar sail resymegol fuddsoddi a rhesymeg ymyrraeth gadarn. Bydd y buddsoddiad mwyaf priodol yn gweddu i'r amcan perthnasol, a dylai adlewyrchu anghenion a chyfleoedd yr ardal berthnasol benodol (os yw'n gysylltiedig

â thargedau seiliedig ar le). Mae rhai elfennau allweddol yn cael eu derbyn yn gyffredinol:

- Ar gyfer amcanion economaidd, mae'n bosibl y bydd buddsoddi mewn sgiliau a seilwaith yn fwy cynhyrchiol yn yr hirdymor. Mae trafnidiaeth yn bwysig i ddarparu mynediad i gyfleoedd gwaith newydd, ond mae angen ystyried hefyd a oes angen cymorth (fel hyfforddiant) ar bobl sydd â sgiliau isel i gael y swyddi hyn.
- Mae rhai buddsoddiadau mewn twristiaeth wedi darparu tystiolaeth dda o ganlyniadau cynaliadwy (e.e. Beic Parcio Cymru), yn enwedig wrth gyfuno cyllid y sector preifat (rhannu'r risg), ffrydiau incwm cynaliadwy, a strategaeth gydlynol.
- Gall gweithgareddau adfywio ffisegol gael effeithiau mwy tymor byr a darfodol os nad yw gwendidau sylfaenol yn cael eu datrys (e.e. ni fydd adfywio canol trefi yn hybu twf busnes os nad oes unrhyw sgiliau perthnasol ar gael).

**Dulliau targedu**

Mae amrywiaeth eang o ddulliau targedu gwahanol wedi'u defnyddio ar gyfer cynlluniau sy'n canolbwyntio ar ardaloedd daearyddol gwahanol. Dylid ystyried y pwyntiau canlynol:

- Mae'n bosibl na fydd canolbwyntio ar le yn unig yn ddull effeithiol o fynd i'r afael â llawer o'r problemau sy'n wynebu unigolion. Mae'n bosibl y bydd nodweddion (fel lefelau sgiliau) yn ddangosydd ac yn ddull targedu gwell, er bod lle yn gysylltiedig â llesiant. Gall gwaith targedu ardaloedd penodol fod yn fwy manteisiol i drigolion mwy cyfoethog yr ardal.
- Gall cyfranogiad y sector preifat (drwy ymrwymiadau ariannol yn benodol) arwain at fuddsoddiadau mwy cynaliadwy.
- Mae'n bosibl nad yr ardaloedd mwyaf difreintiedig fydd yr ardaloedd mwyaf priodol i dargedu llawer o fuddsoddiadau, ond dylid eu hystyried wrth gynllunio buddsoddiadau mwy hyfyw mewn ardaloedd cyfagos (e.e. drwy gysylltu'r ardaloedd drwy drafnidiaeth neu baratoi trigolion ar gyfer cyfleoedd gwaith newydd).
- Gall defnyddio buddion a chaffael cymunedol sy'n sicrhau mantais i'r ardal leol helpu i sicrhau bod y rhaglen yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Mae hyn yn wir am fuddsoddiadau mawr yn benodol nad ydynt yn perthyn i'r strategaeth adfywio leol neu ranbarthol draddodiadol (h.y. maent yn cael eu rhoi ar waith fel rhan o bolisi / strategaeth genedlaethol, fel Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru neu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol).

**ATODIAD A: Tystiolaeth Gwerthuso**

**Tystiolaeth Gwerthuso yn ymwneud â Chronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru**

Mae'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru wedi ariannu ymyraethau amrywiol gan gynnwys prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) i helpu pobl i gael gwaith a gwella sgiliau'r gweithlu presennol, a phrosiectau Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) i wella cystadleurwydd a chapasiti arloesi BBaChau. Hefyd, mae wedi ariannu prosiectau i wella seilwaith Cymru (e.e. trafnidiaeth a band eang) a phrosiectau i adfywio ardaloedd penodol drwy welliannau ffisegol, fel adfywio canol trefi.

Mae gweddill yr adran hon yn amlinellu canfyddiadau gwerthusiadau o ymyraethau ERDF sy'n targedu ardaloedd yng Nghymoedd y De yn benodol.

**Trafnidiaeth: Prosiect Cryfhau Rheilffordd y Cymoedd[1]**

Bwriad Prosiect Cryfhau Rheilffordd y Cymoedd a ariannwyd gan ERDF oedd cefnogi gwasanaethau gwell ar goridorau rheilffordd allweddol (Glynebwy yn bennaf) gan gysylltu'r Cymoedd â Chaerdydd. Roedd yn cynnwys dwy elfen benodol: ailagor a datblygu Rheilffordd Glynebwy rhwng Glynebwy a Chaerdydd; a darparu cerbydau ychwanegol i gynyddu capasiti trenau a chefnogi trenau hirach (h.y. gwasanaethau gwell) ar wasanaethau prysur rheilffyrdd penodol y Cymoedd.

Nododd y gwerthusiad fod ailagor Rheilffordd Glynebwy wedi creu tua 530,000 o gilometrau trên ychwanegol y flwyddyn a 77.5 miliwn o gilometrau 'sedd' ychwanegol y flwyddyn, gan gynyddu'r cyflenwad rheilffordd yn sylweddol. Cynyddodd capasiti'r rheilffordd 19% yn sgil cryfhau rheilffyrdd eraill y Cymoedd. Mewn ymateb i arolwg, dywedodd hanner y teithwyr ar reilffordd Glynebwy eu bod yn arfer gwneud yr un daith yn rheolaidd cyn cyflwyno'r gwasanaethau i deithwyr, a dywedodd dros 40% ohonynt eu bod yn arfer defnyddio'r car i wneud y daith. Mae hyn yn awgrymu potensial y gwasanaeth newydd i annog pobl i ddefnyddio'r trên yn hytrach na'r car.

Fodd bynnag, er bod 300 o bobl ychwanegol wedi defnyddio'r trên i deithio i'r gwaith yn nalgylch Glynebwy – Tŷ-du rhwng cyfnodau Cyfrifiad 2001 a 2011 (cynnydd o 109 i 446), mae hyn yn llai o lawer na'r 4,000 o bobl ychwanegol a yrrodd i'r gwaith yn ystod yr un cyfnod (cynnydd o 14,083 i 18,068). Hefyd, mewn arolwg o drigolion ardaloedd yr awdurdodau lleol sy'n cael eu gwasanaethu gan Reilffordd y Cymoedd, dim ond 12% o'r rhai a nododd eu bod yn defnyddio Rheilffordd y Cymoedd a ddywedodd eu bod yn ei defnyddio at ddibenion cymudo. Gall hyn awgrymu bod angen ymyraethau eraill i helpu i sicrhau bod teithio i'r gwaith ar y trên yn ddewis amgen hyfyw i fwy o bobl, e.e. cymorth i bobl wella eu sgiliau er mwyn manteisio ar gyfleoedd gwaith sy'n fwy hygyrch bellach.

**Seilwaith Addysg: Parth Dysgu Blaenau Gwent[2]**

Mae Parth Dysgu Blaenau Gwent yn gyfleuster dysgu ôl-16 oed a sefydlwyd fel cynllun partneriaeth adfywio rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Coleg

[1] Evaluation of Valleys Rail Strengthening. Peter Brett Associates LLP.
[2] Post-Project Evaluation of the Blaenau Gwent Learning Zone Project Stage 2. Wavehill Ltd.

Gwent a Phrifysgol Cymru Casnewydd (Prifysgol De Cymru erbyn hyn) gyda chymorth Llywodraeth Cymru. Fe'i datblygwyd i greu Canolfan Dysgu'r unfed ganrif ar hugain a helpu i weddnewid addysg ôl-16 ym Mlaenau Gwent. Cwblhawyd yr adeilad ym mis Awst 2012 ac roedd yn agored i fyfyrwyr ym mis Medi 2012 pan gaeodd Coleg Gwent ei hen Gampws yng Nglynebwy er mwyn symud i'r Parth Dysgu. Mae'r Parth Dysgu wedi'i adeiladu ar safle "Y Gweithfeydd" (hen safle Gwaith Dur Corus) yng Nglyn Ebwy.

Yn ôl y gwerthusiad, cafodd y dull o sicrhau caffael lleol a chyflogaeth leol fel rhan o'r gwaith o adeiladu'r Parth Dysgu effaith gadarnhaol (ond dros dro) ar farchnadoedd llafur lleol. Hefyd, cyfeiriodd nifer o randdeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r gwerthusiad at effaith gatalytig adeilad y Parth Dysgu. Roedd gwaith ar y cyfleuster bron wedi'i gwblhau cyn dechrau llawer o'r seilwaith sylfaenol ar Safle'r Gweithfeydd. Hefyd, llwyddodd y gwaith o osod y seilwaith sylfaenol (o dan ddylanwad gwaith cyfleuster y Parth Dysgu) i hwyluso rhagor o waith datblygu ar y safle.

Mae'r gwerthuswyr yn dod i'r casgliad bod datblygu'r Parth Dysgu wedi galluogi myfyrwyr i gael mynediad i gwricwlwm ehangach a bod mynediad i'r safle yn gwella o ganlyniad i ymestyn y rheilffordd ac agor y gwasanaeth cebl. Fodd bynnag, nid yw mynediad yn hawdd i bob cymuned yn y fwrdeistref, yn enwedig Abertyleri. Mae'r gwerthuswyr yn argymell y dylid parhau i gryfhau partneriaethau ag ysgolion uwchradd a gweithio i sicrhau bod y Parth Dysgu yn cael ei ystyried yn ased i'r gymuned gyfan.

**Seilwaith Twristiaeth: Seiclo De Cymru ('Canolfan Ragoriaeth Cognation', yn cynnwys Parc Beicio Cymru)[3]**

Mewn ymateb i bryderon nad oedd ardal De Cymru yn gallu cystadlu mor effeithiol oherwydd cystadleuaeth gynyddol gan leoliadau beicio mynydd eraill, lansiwyd Canolfan Ragoriaeth Cognation i ddatblygu'r cyfleusterau presennol ym Mharc Coedwig Afan, Parc Fforest Cwmcarn a Pharc Margam. Hefyd, aed ati i greu 'Parc Beicio Cymru', un o barciau beicio mynydd pwrpasol cyntaf yn y DU i godi tâl ar ymwelwyr.

Yn ôl gwerthuswyr y prosiect, roedd lleoliad y canolfannau yn ddylanwad pwysig ar y buddsoddiadau arfaethedig. Mae'r canolfannau presennol o fewn cyrraedd yr M4. Hefyd, mae Parc Beicio Cymru o fewn cyrraedd hwylus yr M5/M50 a'r A40.

Cyfeiriodd y gwerthuswyr at y trefniadau datblygu a darparu penodol ar gyfer Parc Beicio Cymru a oedd yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru yn caffael datblygwr a gweithredwr o'r sector preifat drwy dendro cystadleuol. Un o fanteision allweddol y dull hwn oedd y cyfle i sicrhau cyfran sylweddol o gyllid gan y sector preifat, a symud mwy o risg iddo.

Mae'r gwerthusiad yn awgrymu bod cynnydd cymharol sylweddol wedi bod mewn ymwelwyr ychwanegol â'r cyfleusterau, a bod natur y gweithgaredd fel un sy'n denu pobl gydol y flwyddyn, a'r cyfleusterau pob tywydd newydd, yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar dymor ymwelwyr estynedig. Er y gall hyn arwain at gynyddu gwariant

[3] Evaluation of the Coastal and Sustainable Tourism Projects. Regeneris Consulting Ltd.

ar gyfleusterau lleol eraill (e.e. manwerthu a lletygarwch), mae'r gwerthuswyr yn nodi y bydd y broses o integreiddio'r canolfannau â'r cyfleusterau hyn mewn ffordd effeithiol yn gryn her. Hefyd, mae'r gwerthusiad yn argymell bod angen strategaeth hirdymor i gynnal ac adnewyddu'r rhwydwaith presennol o lwybrau a'r seilwaith cysylltiedig mewn ffordd gynaliadwy a hirdymor. Mae angen strategaeth hefyd i hyrwyddo'r llwybrau yn effeithiol ar gyfer defnyddwyr newydd a chynnal digwyddiadau a gwyliau cysylltiedig.

**Seilwaith Twristiaeth: Lido Pontypridd[4]**

Nod prosiect Lido Pontypridd yw adnewyddu Lido Parc Ynysangharad, sy'n adeilad rhestredig Gradd II gwreiddiol o'r 1920au, a'i droi'n atyniad rhanbarthol i ymwelwyr a chyfleuster ym Mhontypridd a fyddai'n unigryw i Gymru.

Nododd y gwerthusiad fod y prosiect wedi creu llawer o ewyllys da rhwng y cyngor a'r gymuned, yn rhannol oherwydd yr ymgyrch farchnata gynhwysfawr a'r broses ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned, a sicrhaodd broffil uchel i'r prosiect. Mae'r gwerthusiad yn awgrymu y bydd y gymdeithas gyfan yn elwa ar y cyfleusterau, gan fod y cynllun wedi darparu ar gyfer amrywiaeth eang o bobl. Hefyd, mae'r gwerthusiad yn cyfeirio at y cyfleoedd cyflogaeth sydd wedi'u creu o ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect, er enghraifft, yn y pwll ei hun ac yn y caffi.

**Adfywio Canol Tref: Merthyr Tudful[5]**

Nod Prosiect Adfywio Canol Tref Merthyr Tudful oedd amrywio'r sylfaen economaidd, cynyddu nifer yr ymwelwyr, hybu buddsoddiad a hyder busnesau a chadw gwariant yng nghanol tref Merthyr Tudful. Roedd y prosiect yn cynnwys adnewyddu ac ailddatblygu nifer o adeiladau a safleoedd allweddol yng Nghanol Tref Merthyr Tudful.

Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid a'r trigolion a gafodd eu cyfweld ar gyfer y gwerthusiad yn teimlo'n gadarnhaol iawn am ansawdd y gwaith, y berthynas waith a sefydlwyd i weithredu'r prosiect, a'r broses gyfathrebu â'r gymuned ehangach ynglŷn â'r gweithgarwch adfywio. Fodd bynnag, mae cynnydd yn erbyn rhai dangosyddion perfformiad allweddol yn gymysg, ac er bod nifer yr ymwelwyr a'r gwariant cyfartalog wedi cynyddu, mae'r duedd wedi bod ar i lawr o safbwynt cyfraddau swyddi gwag, y galw masnachol a lefelau rhentu adeiladau. Un rheswm posibl am hyn yw nad oedd effaith lawn y gwaith adfywio yn amlwg adeg y gwerthusiad, ond mae'r gwerthusiad yn nodi bod angen rhaglen datblygu ategol i geisio mynd i'r afael â'r lefel isel o gyfleoedd cyflogaeth a lefelau sgiliau – yn ogystal â mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol a diwylliannol sylweddol eraill sy'n cyfrannu at amddifadedd yn yr ardal.

## Tystiolaeth Ymchwil Ehangach ynglŷn â Chymorth sy'n Targedu Ardaloedd Difreintiedig

[4] Evaluation of the Ponty Lido Restoration Project – Final WEFO Evaluation Report. Wavehill Ltd.
[5] Evaluation of the Effectiveness of Merthyr Tydfil Town Centre Regeneration Project. Miller Research UK.

**ATODIAD A: Tystiolaeth Gwerthuso**

Yn gyffredinol, mae'r llenyddiaeth yn ymwneud ag effaith cronfeydd adfywio a menter sy'n targedu ardaloedd penodol yn gymysg. Fel yr adolygiad diweddaraf (Ionawr 2016) o fentrau mewn ardaloedd penodol[6], nododd adolygiad What Works o 58 o werthusiadau effaith dda fod Parthau Menter yn gallu cael effaith gadarnhaol ar gyflogaeth. Fodd bynnag, gall unrhyw effaith gadarnhaol ddeillio o ddisodli, a gall lefelau is o gyflogaeth mewn ardaloedd cyfagos nad ydynt wedi derbyn cymorth fod yn drech na gwelliannau yn yr ardal a dargedir. Mae adolygiad What Works yn awgrymu y gall Parthau Menter barhau i helpu i ganolbwyntio cyflogaeth leol ar nifer o safleoedd gwasgaredig.

Mae gwerthusiadau eraill o fathau gwahanol o gymorth sy'n targedu ardaloedd penodol yn ofalus iawn wrth fesur eu heffaith ar gyflogaeth. Nododd adroddiad[7] gan Sefydliad Joseph Rowntree yn 2014 fod y canlyniadau'n gymysg: er bod gwaith adfywio wedi bod yn effeithiol, yn fwy felly o safbwynt mathau anfaterol o dlodi (e.e. iechyd a llesiant gwael) na thlodi materol, mae'r effeithiau cyflogaeth cadarnhaol yn cael eu gwrthbwyso gan y canfyddiad bod swyddi'n cael eu llenwi gan bobl sy'n byw y tu allan i'r ardal a dargedir yn aml ac nad ydynt yn swyddi ychwanegol bob amser. Mae astudiaethau eraill yn rhannu'r canfyddiad hwn. Ystyriodd astudiaeth GEMS Belfast yn 2008[8] lwyddiant rhaglen adfywio Belfast. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod dull gweithredu'r rhaglen, h.y. targedu pobl benodol mewn ardaloedd difreintiedig wrth ymyl y safle adfywio, yn ffactor allweddol yn y llwyddiant. Mae adroddiad arall gan Sefydliad Joseph Rowntree yn nodi pwysigrwydd ymgysylltu â phobl leol sydd heb waith, ond mae'n pwysleisio pwysigrwydd amseru hefyd. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at dystiolaeth o ardal Speke yn Lerpwl, a oedd â chyfraddau diweithdra uchel er gwaetha'r ffaith ei bod yn agos at ardal o dwf swyddi sylweddol. Er bod camau wedi'u rhoi ar waith i geisio sicrhau bod pobl leol sydd heb waith yn manteisio ar y cyfleoedd gwaith hyn (e.e. drwy gytundebau llafur lleol), roedd rhanddeiliaid yn dadlau nad oedd hyn yn gweithio oherwydd nad oedd digon o amser i baratoi pobl ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth.[9] Mae hyn yn tanlinellu'r angen am ymgysylltiad cynnar a chyson â phobl leol sydd heb waith.

Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu nad yw ymyraethau 'seiliedig ar leoedd' yn ddigon ynddynt eu hunain i wella rhagolygon cyflogaeth pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig a bod ymyraethau sy'n ceisio cynorthwyo pobl yn uniongyrchol i wella eu sgiliau a dileu rhwystrau i waith yn bwysig o hyd (er bod tystiolaeth o werthusiadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop o'r ymyraethau hyn yn awgrymu y bydd eu heffeithiolrwydd yn amrywio hefyd).

---

[6] What Works Centre for Local Economic Growth. 2016. *Area Based Initiatives: Enterprise Zones.* Ar gael ar-lein: http://www.whatworksgrowth.org/public/files/Policy_Reviews/16-01-04-Area-based-initiatives-EZ.pdf Cyrchwyd 6/7/2016

[7] Crisp, R., Gore, T., Pearson, S. a Tyler, P. 2014. *Regeneration and Poverty: Evidence and Policy Review.* Sefydliad Joseph Rowntree. Ar gael ar-lein: https://dspace.stir.ac.uk/bitstream/1893/20712/1/jrf-regeneration-poverty-final-report.pdf Cyrchwyd 6/7/2016

[8] Plöger, J. 2008. *Belfast's Gasworks Employment Matching Service: Report to the Academy for Sustainable Communities.* Centre for Analysis of Social Exclusion. Ar gael ar-lein: http://sticerd.lse.ac.uk/dps/case/cr/CASEreport54.pdf Cyrchwyd 6/7/2016

[9] *Rebalancing Local Economies: Widening economic opportunities for people in deprived communities* (2010), Sefydliad Joseph Rowntree, ar gael yn: http://www.jrf.org.uk/publications/rebalancing-local-economies

## ATODIAD A: Tystiolaeth Gwerthuso

Er mwyn gwella gallu gwaith adfywio i greu swyddi sy'n fanteisiol i'r rhai sy'n byw mewn tlodi, mae adroddiad 2014 Sefydliad Joseph Rowntree yn argymell y canlynol:

- nodi faint o swyddi a fydd yn deillio o strategaethau a rhaglenni adfywio yn y dyfodol er mwyn ceisio sicrhau bod cynifer o gyfleoedd cyflogaeth uniongyrchol ar gael â phosibl;
- sicrhau bod mentrau creu swyddi yn mynd ati'n ofalus i dargedu sectorau a grwpiau sy'n annhebygol o greu effeithiau disodli;
- cynnig darpariaeth hyfforddiant a chyflogaeth i helpu trigolion i gyrchu'r swyddi sy'n cael eu creu;
- cyflwyno cynlluniau Marchnad Lafur Drosiannol mawr i greu swyddi newydd mewn ardaloedd lle mae llawer o bobl heb waith (er bod angen gweithredu'n ofalus yn y cyswllt hwn gan fod tystiolaeth o werthusiadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn awgrymu bod cynlluniau o'r fath yn gallu bod yn ddi-fuddiant).

Mae gwerthusiad GEMS Belfast yn nodi bod gwybodaeth fanwl am gymunedau lleol a'r gallu i gyrraedd y rhai sydd wedi'u heithrio o'r farchnad lafur am rywfaint o amser yn helpu i gael effaith ar lefelau diweithdra. Yn yr un modd, mae gwerthusiad o brosiect Yn Awyddus i Weithio Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn nodi bod ymdrechion i wneud y rhaglen yn anfygythiol ac yn hygyrch wedi bod yn llwyddiannus. Er bod llawer o gwsmeriaid yn ansicr ynglŷn â chymryd rhan mewn rhaglen y llywodraeth, manteisiodd y prosiect Yn Awyddus i Weithio ar ddull allgymorth unigryw er mwyn ymgysylltu â chwsmeriaid. Cafwyd gwaith partneriaeth effeithiol rhwng y prosiect a sefydliadau lleol eraill, ac roedd cwsmeriaid yn gwerthfawrogi lefel y cymorth personol. Mae'r adborth cadarnhaol ar y prosiect Yn Awyddus i Weithio yn cael ei ategu gan dystiolaeth o effaith y prosiect gan y gwerthusiad, a gan dystiolaeth o Arolwg yr ESF o'r Bobl a Adawodd, a nododd fod cymorth personol o'r fath yn effeithiol wrth helpu pobl i ddod o hyd i gyflogaeth.

Mae adolygiad llenyddiaeth gan y Sefydliad Gwaith yn awgrymu y gall fod yn haws (ac yn fwy cynaliadwy) cysylltu ardaloedd o dwf a dirywiad yn hytrach na cheisio creu swyddi mewn ardaloedd sydd ag economi wan.[10] Mae hyn yn nodi bod trafnidiaeth yn ystyriaeth bwysig mewn unrhyw gynllun adfywio (ond fel sy'n wir am yr ymyraethau eraill a drafodir yma, nid yw trafnidiaeth ar ei phen ei hun yn ddigon).[11]

Mae gwaith ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree a'r Sefydliad Gwaith yn nodi pwysigrwydd datblygu strategaeth ehangach fel sylfaen i ymdrechion adfywio er mwyn sicrhau bod yr holl weithgareddau yn ceisio cyflawni'r un amcanion.[12] Hefyd,

---

[10] *Cities, Growth and Poverty: Evidence Paper 1 – review of existing literature* (2014) Y Sefydliad Gwaith, ar gael yn: http://www.theworkfoundation.com/Reports/351/Cities-growth-and-poverty-Evidence-paper-1-Review-of-existing-literature

[11] *Regeneration in European Cities: Making Connections* (2008), Sefydliad Joseph Rowntree, ar gael yn: http://www.jrf.org.uk/publications/regeneration-european-cities-making-connections, *Coalfields and Neighbouring Cities: Economic Regeneration, Labour Markets and Governance* (2007), Joseph Rowntree Foundation, available at: http://www.jrf.org.uk/publications/coalfields-and-neighbouring-cities-economic-regeneration-labour-markets-and-governance

[12] *Regeneration in European Cities: Making Connections* (2008), Sefydliad Joseph Rowntree, ar gael yn: http://www.jrf.org.uk/publications/regeneration-european-cities-making-connections, *Past Recessions: What are the Lessons for Regeneration in the Future* (2010), The Work Foundation,

mae'r gwaith ymchwil hwn yn cefnogi'r syniad o newid i ddatblygu rhaglenni ar lefel ardaloedd sydd â chysylltiadau economaidd (e.e. dinas-ranbarthau), yn hytrach na'u cyfyngu i ffiniau gweinyddol.

---

available at: http://www.theworkfoundation.com/Reports/271/Past-Recessions-What-are-the-lessons-for-regeneration-in-the-future